

Cyfres Duw a Diwylliant 2

CANU GWIREBOL A WITTGENSTEIN

R.M. Jones

Mae pob gair unigol yn wir. Mewn brawddegau y cyfyd y trafferth. Hynny yw, fe fathwyd neu fe ddatblygwyd pob gair unigol i gynrychioli rhywbeth pendant, a'i enwi. A'r cwbl y mae'r plentyn yn ei wneud wrth ynganu un gair yw cysylltu arwydd (sŵn fel arfer) â'r canfyddiad o wrthrych i gydymffurfio â threfn sydd eisoes gan rywun arall. Adleisio a wna. Man cyfarfod iddo yw'r gair. Cytundeb mewn safle 'sefydlog.'

Teulu o osodiadau yw canu gwirebol. Teulu arbennig yw o frawddegau neu ymadroddion. Math o osodiad 'pur' yw 'gwyn eira'. Fe'i gelwir yn 'wireb'. Yr hyn a wneir, mae'n ymddangos, yw estyn y cysondeb a'r gwir a geir mewn un gair i'r cyswllt rhwng dau air, drwy dynnu allan o'r gair un 'nodwedd', a'r nodwedd honno'n enwi cynneddf neu ansawdd sy'n amlwg 'wir'. Gwelir math o gysondeb syml o fewn y cyswllt hwn mewn amser a lle. Rhaid bod yna foddhad o fath yn y darganfyddiad cyn trafferthu i'w yngan mewn 'gwireb'. Estyniad o'r gwir yw mewn 'cwlwm' deuol' sy'n cadarnhau dibynolrwydd deall. O fewn y gosodiad ceir math o ddibynolrwydd mewnol, tebyg i air.

Yn y gwrthrych 'eira', ceir llawer o nodweddion, rhai ohonynt a ddarganfyddir drwy ddysg neu ymchwil. Mae'r datganiad o wyndra, sut bynnag, yn canlyn canfyddiad elfennaidd iawn gan synnwyr gweld y corff. Fe'i dadansoddir drwy gymharu naif ac ynysu nodwedd wahaniaethol amlwg. Ceisir undod clòs.

Pam y mae'n werth ei ddweud o gwbl felly? Beth yw'r boddhad?

Yn y plentyn bychan, sy'n meistrol'r 'gair cyntaf', darganfyddir medr newydd. Weithiau, dangosir boddhad gan ei rieni wrth iddo ddechrau'r arfer o siarad (neu o ddweud y gwir). Gwna ef dwll mewn anwybodaeth. Dechreuir adeiladu pont i mewn i'r byd. Mae'n deffro. Ceir math o aileni. Cyn bod y plentyn yn dweud dim ei hun, sefydlwyd iaith eisoes. Sefydlwyd trefn arwydd+arwyddedig gan rywun arall. A'r hyn y mae'r plentyn yn ei wneud yw nid *dyfeisio* cyfundrefnau, eithr mabwysiadu patrwm, darganfod arferiad a dadansoddi dyfais unigolyddol sydd eisoes yno a chlymu gwrthrych wrth label. Bydd y gwir yn erfyn cymdeithasol gwerthfawr iddo. Mae'n gamp gyfathrebol. Mae'n gysur. Mae'n borth i dyfiant meddwl wrth geisio meistrol'r amgylchfyd. Wrth enwi, meddiennir y byd i raddau gan y sylweddoliad. Yn y pen draw, bydd y gair cyntaf yn arwain at filoedd ar filoedd o lyfrau, at wyddorau a chelfyddydau o bob math, at gyfathrebau bydeang, at ddealltwriaeth o ddyrys bynciau, at berthnasoddedd

cymhleth da a drwg, rhwng pobl. Ond yn y dechrau noeth cyntefig hwnnw, mae'r hanfodion canolog elfennaidd ar gael mewn cam potensial. Darganfod gwir.

Eto, math o ffrwythloni yw eisoes. Mae darn allweddol o ddiwylliant dyn yn ymestyn eisoes yn y weithred hon gan y meddwl drwy gysylltu dau beth gwahanol i'w gwneud yn undod o sŵn a synnwyr. Dyma declyn defnyddiol. Wrth sefydlu hyn mewn arferiad, yr hyn a wneir yn gyntaf cyn gweithredu'n allanol yw sefydlu egwyddor yn y meddwl. Gelwir y fframwaith hwnnw'n 'gyfundrefn'. Mewn gwirionedd, cyfundrefn yw pob gair unigol: mae'n berthynas reolaidd sydd eisoes yn rhan gyffredinol o natur.

Oherwydd bod pob gair, beth bynnag y bo, yn yngan y gwir ynddo'i hun, pan ddywedir 'eira' nid â neb ati i ddisgwyl y gall mai 'drws' sydd mewn golwg. Dyna'r pam y gellir hawlio mai'r bwriad i iaith i gyd yn wreiddiol fu dweud y gwir, beth bynnag yw'r camdefnydd ohoni. Iaith ar ei gorau yw'r gwir. Ac iaith ar ei gorau o ran potensial yw barddoniaeth.

Eto, honnai David Lewis-Williams yn ei gyfrol *Conceiving God*, 'Briefly put science itself is amoral.' Ond yr ymgais naturiol gan bob gwyddonydd pan fo'n ymddwyn fel gwyddonydd dilys yw dweud y gwir profadwy. Onid moesol yw hynny? Gall gwyddonydd (nid gwyddoniaeth) fod yn anfoesol. Wrth reswm, os dymuna ennill sylw gan newyddiadurwyr, megis yr ymddangosai fod Hawking am ei wneud pan soniai am fywyd deallus ar blanedau eraill, neu Dawkins pan honnai heb na phrawf na phrofiad ei bod yn debyg nad oedd Duw'n bod, 'agenda' sy ganddynt. Y maent yn peidio â bod yn wyddonol tan gamdefnyddio iaith. Bydd gwyddonwyr bob dydd yn gwneud camgymeriadau wrth gwrs. Ond peth moesol cynhenid yw ceisio dweud y gwir. Ac mae'r ymgais i beidio â dweud y gwir yn cael ei gyfrif yn drosedd ym mhob llys barn. Mae'n groes i 'drefn'. Felly, rhaid cyfrif nad 'di-foes' yw gwaith gwyddonydd dilys o gwbl. Ac mae'r ymgais i chwilio am y gwirionedd yn rhinwedd, sy'n hanfod i 'iaith' yn y bôn. Nid di-foes yw iaith, felly, ynddi ei hun ychwaith.

Rhaid cyfaddef nad 'gwyn eira' bob amser yw'r eira a adwaen i. Nid yw'n gyffredinol gywir. Cyfeirir yn briodol at amser a lle pryd mae'r eira'n gallu bod yn wyn. Honna rhai nad yw dim yn wir yn y pen draw ond lle y derbynnir math o absoliwt dychmygol, sef heb relativrwydd nac agnosticiaeth. Dyma ddelfryd neu gartŵn o eira. Yn y Theori Gyfatebol (*Correspondence Theory*) o Wirionedd sy'n ymestyn o Aristoteles

ymlaen i G.E. Moore, yr ydys yn dal bod y gwir yn bod pan geir math o gyfatebiaeth rhwng cred neu frawddeg ar y naill law ac effaith neu sefyllfa yn y llall. Gwrthodir bellach y Theori Pragmataidd (Charles Sanders Peirce, William James a John Dewey) am fod hynny ynghlwm yn unig wrth ganlyniadau ymarferol neu ddefnyddiol.

Ymddengys i mi fod y gwir yn ffenomen reidiol a thechnegol gymdeithasol hefyd yn achos i'r 'gair' ei hun. Rhaid i'r gair gynnwys cytundeb neu gyfundrefn gyffredin rhwng person a pherson, yn ddefnyddiol neu beidio. Yn wir, y mae'r holl gyfundrefnu ieithyddol isymwybodol a geir mewn Tafod (seiliau ymenyddol Gramadeg ac Iaith) yn gorfod bod yn gyfatebol rhwng un meddwl a meddwl arall. Hynny yw, yn hanfodol, maent yn gorfod bod yn 'wirionedd a rennir' yn feddyliol sefydliadol rhwng un ac un. Fel y dywedai Wittgenstein, 'Does dim iaith breifat.' Er na chytunwn â Wittgenstein fod gwireddu'n cael ei gyfyngu i gadarnhad empeiraidd, eto, fe gytunwn mai archwilio ffurfiau bywyd cyffredin yw'r sail i bob 'gêm iaith'.

Felly, byddaf yn synied bod darganfod cyfundrefnau gramadeg hefyd, a'r ffordd y maent yn gweithio, yn ymgais i chwilio'r gwir a'r cyswllt, ac yn rhinweddol. Ar ryw olwg dathlu hyn a wna canu gwirebol: dathlu gwirionedd iaith, cywirdeb deall; a'i gydnabod fel ffenomen angenrheidiol mewn bywyd. Gwna hyn o fewn hiraeth am berthynas.

Ond beth yw gwerth llunio'r fath beth, a'i ddyrchafu i fod yn ffurf lenyddol?

Mae arnaf ofn imi ddod at y canu gwirebol heb feddwl ryw lawer beth oedd natur na phwrpas na gwerth cymharol y fath benillion cyntefig a 'syml' â hyn. Derbyniais hwy fel dogfennau o ffurf, ryfedd braidd, o farddoni, heb ymholi pam na hyd yn oed sut y ceid y fath bethau. Ond deffrowyd fy chwilfrydedd a'm hystyriaethau am eu creadigrwydd wrth fyfyrion gyntaf am ffurf y ddihareb. Ymddangosodd diarhebion yn bethau bychain gwerth pendroni am eu ffurf wrth sylweddoli mai dyma'r llenfath mwyaf cwta o'r holl ffurfiau llenyddol cyfanweithiol. Tamaid gorffenedig o lenyddiaeth ddoethineb oedd y ddihareb, a swniai'n debyg ddigon i wireb. Yn wir, corfforid diarhebion o fewn canu gwirebol, er y gallent sefyll hefyd yn annibynnol.

Hynny yw, dechreuwn ymdroi gyda natur dihareb fel ffurf lenyddol; a chan mor agos o ran cyd-destun a threfn oedd y wireb a'r ddihareb, mynnai fy meddwl erbyn hynny ymholi am ddsbarthiad llenddulliau fel ffenomen hynafol a chyffredinol wrth ystyried y

cyfannau lleiafysymiol hyn. Pa mor dila ac elfennaidd yr oedd cwlwm o eiriau'n gorfod bod i gael ei gydnabod fel 'llenyddiaeth'?

Ymddengys y drefn o lenddulliau yn ffenomen hynafol iawn, a hyd yn oed i raddau yn rhyngwladol. Yn ffenomen y ddihareb, ac efallai gyda'r wireb, dyma gyfundrefn lenyddol elfennaidd. Ond ai llenddull (*genre*) oedd? Yr wyf wedi ceisio dadlau bod yna awydd i ddarganfod cyfundrefnau dwfn isymwybodol, hir-barhaol eisoes o ran bodolaeth yn y ffenomen strwythurol a elwir yn 'Dafod.' Wedyn, bron yr un pryd, gellir dadlau bod yna awydd i lunio cyfundrefnau llai dwfn, ymwybodol, mwy hysbys, gyda ffurfiau mwy arwynebol ac achlysurol yn yr hyn a elwir yn 'Fynegiant' lle y ceid y ddihareb a'r wireb ochr yn ochr â'i gilydd.

Yng nghyfundrefnwaith 'llenddull' mae gan y ddihareb a'r wireb safle go nodedig. Ymddangosant fel hadau. Maent wedi'u dinoethi o helaethrwydd iaith, fel petai. Eithr gwnânt y cyswllt cyfrifol ac unigryw o geisio cwmpasu a chynnwys y gwir. Mae hyn, yn fy marn i, yn rhywbeth sy'n cael lle ac yn codi hen broblem ynghylch beth yw gwirionedd. Mae hefyd yn gorfforiad yr un pryd o drefn isymwybodol. *Dyma'r 'gwir' yn ymwybodol drwy 'drefn' sy'n isymwybodol.*

Mor rhyfedd yw'r cyswllt cyson hwn rhwng iaith a diwinyddiaeth. Cofiw'n fel y cyfrifid Iesu Grist fel y Gair, ac mai Ef hefyd yw'r Gwirionedd a'r bywyd. Onid yw hyn yn gysylltiedig â'r angen dynol i sylweddoli rheidrwydd 'Absoliwt' mewn bywyd ymarferol a deall? Ymddengys fod perthynas Diwinyddiaeth ac Iaith yn ddyledus i bwysigrwydd perthynas bersonol o fath. Mewn llenyddiaeth, mae'r math o berthynas a geir rhwng yr Absoliwt a'r llenor yn penderfynu popeth yn ei fywyd, boed yn deimlad, yn waith, yn ddealltwriaeth o bwmpas byw, ac o ystyr y gymdeithas. Mae'r tyndra yn y fath sefyllfa yn amlwg, a bu felly yn arbennig ers y tyndra rhwng animistiaeth werinol geidwadol boblogaidd Dafydd ap Gwilym a'i Gatholigiaeth Sagrafennol hyd at y tyndra crefyddol o fewn gwaith enigmatig Saunders Lewis a Waldo.

Mae hyn hefyd, os caf fentro'i ddweud, ar gerdded mewn ffordd wahanol yn ein llenyddiaeth gyfoes wedyn, ac wedi effeithio ar drai a llanw gwerthuso, a'r argyfwng barddonol cyfoes mewn llenyddiaeth Gymraeg. O'r hyn lleiaf, tybiaf fod ailystyried rhai o'r gwreiddiau 'poblogaidd' (lle y ceid trachwant difrif am symlder) yn llwybr buddiol.

*

*

*

Ai disgrifiad o lenddull elfennaidd (*genre*) yw ‘cân wirebol’? Ynteu disgrifiad o dechneg arddulliol? Tuedda'r ymdriniaeth hon i bleidio'r ail ddiffiniad.

Defnyddiwn y term ‘llenddull’ fel arfer i gyfleu dosbarth o ‘lenweithiau cyfan’, sy’n debyg i’w gilydd o ran natur gynhwysol neu ffurfiol neu’r ddau. Neilltuais y termau ‘llenfathau’ a ‘llenfoddau’ i ddau deulu o lenddulliau sydd gredaf i yn perthyn i ddyfnder dosbarthiad Tafod, yn ôl criterion *gofod/amser*. Ceir y dosbarthiad ‘llenfathau’, sef *telyneg/drama/naratif* yn hynafol iawn, a mentrwyd ei ddsbarthu [yn ei wreiddyn] yn ôl tri dimensiwn gofod, neu’r tri safbwynt rhagenwol. Ychwanegwyd y ‘*drafodaeth*’, yn all-driol, yn ôl yr un criterion ar sail y trydydd person cyffredinol. Ceir y dosbarthiad ‘llenfoddau’ *comedi/trasiedi a mawl/dychan* eto’n hynafol iawn, a mentrwyd eu dosbarthu [yn eu gwreiddyn] yn ôl dau *gyfeiriad amser*, yn esgynnol neu’n ddisgynnol.

Am ‘lenddulliau’ yn llaciach mewn Mynegiant (dyweder yn siâp penillion), dosberthir yn ôl ffurf a chynnwys. Felly, y nofel dditectif, y cywydd gofyn, y ddrama sebon, a channoedd o bethau cyffelyb. Ceir trafodaeth ragorol ddiweddar gan Barry J. Lewis ar rai lenddulliau mewn Mynegiant yn *Llenyddiaeth mewn Theori*, II, 1-33.

Cyfeirio a wna ‘llenddull’ nid at arddull na throad mewn un llinell, ond at y dosbarth cyfanweithiol. Y mae natur enghreifftiau o’r cyfanwaith yn gallu bod mor gyson debyg nes tadogi teitl rhyw ddull rheolaidd arno. Mentrwn awgrymu mai’r lleiaf o’r llenddulliau oll yw’r ddihareb. Disgrifiad yw o ddsbarth o lenddulliau cyfan mewn llên ddoethineb. Gellid ei chyferbynnu â’r arwrgerdd, a all ymestyn i filoedd o linellau.

Fel arfer, yn yr hyn a elwir yn ganu gwirebol, ceir yr hyn a alwn yn ‘wirebau’, sef datganiadau cryno o wirionedd amlwg elfennaidd. Ond hyd yn oed mewn englynion milwr a gyfrifir yn ‘ganu gwirebol’, dichon nad oes mwy nag un neu ddwy linell o’r tair, sy’n wir wirebol. A mentraf ddatblygu dadl mai disgrifiad o dechneg arddulliol yw ‘cân wirebol’, nid disgrifiad o lenddull. Yn wahanol i’r ddihareb, ni saif gwireb ar ei phen ei hun, yn gyfanwaith. Dibynna'n arferol ar fod yn rhan o lenddull arall. Nid yw’r cynnwys yn ddigonol i lunio cyfanwaith llenddulliol cyson. Gwedd yw ar arddull achlysurol mewn llenyddiaeth.

Ond erys sawl dirgelwch ynglŷn â’r arddull hwn. Dichon, gan mor hwyrfrydig fu’r gyfundrefn farddol i dderbyn yr ‘englyn milwr’ i’w chorlan, mai perthyn i’r traddodiad gwerinol yn hytrach nag i’r traddodiad uchelwrol yr oedd, os caf adfer dau

gategori morffolegol a drafodais gynt yn *I'r Arch*. Mae dosbarth ffurfiol y traddodiad gwerinol yn gallu cyfrannu at ein dealltwriaeth o ddiben y canu hwn. Myn inni benderfynu a drafodwn y gwirebau yn barchus ddifrif neu'n ysgafn hwyliog.

Gall symlder y Canu Gwirebol achosi dryswch. Caiff y cyfnod diweddar anhawster mawr i ddirnad, oni byddir yn nawddogol, pam y byddai beirdd call yn gwneud gosodiadau yn eu cerddi a oedd mor amlwg elfennol, a hefyd mor ddiangen o ddisgrifiol, fel pe buasent yn rhy anaeddfed i fod yn sylwadau gan blant.

Cyffredinoliad bachog yw gwireb, gan oedolyn, naill ai ynghylch nodweddion dynol neu am yr amgylchfyd, sy'n datgan y math o wybodaeth y byddir fel arfer yn ei chymryd yn ganiataol. Hynny yw, llên ddoethineb ydyw sy'n rhy brin o ddoethineb i fod yn ddoeth. Mae hi fel pe bai'n gefndir i ddoethineb yn hytrach nag yn gasgliad doeth ynddi'i hun. Dyna'r dull arferol o synied am wireb.

Mae T.J. Morgan yn diffinio barddoniaeth wirebol yn gadarnhaol iawn fel, 'y farddoniaeth naturiol honno a dyf yn ddigyfrwng allan o feddwl y genedl wrth iddi gamu ymlaen ac adnabod ei hamgylchedd, e.e., proffwydo neu ddywedyd stori neu ymdrechion dyn i wneuthur *sylwadau cyffredinol wir neu wirebau* am ei gyd-ddyn a'r byd neu natur o'i gwmpas.'¹ Dyna roi tipyn o urddas iddi. Gormod, ddwedwn i.

Dyma rai enghreifftiau adnabyddus: *Bit goch crib keilyawc; bit gnawt aflwyd ar diryeit; bit gynifiat gwyd; a bit gynnwys dillat; bit yn gheudawt oual; bit redegawc gorwyd; bit grwm biw a bit lwyd bleid*² [Sef: bydd (neu bydder) crib ceiliog yn goch; hanfod fydd aflwydd ar ddiriaid; bod yn gwerylgar y bydd gŵydd; yn y galon y bydd gofid; rhedeg y bydd march; bydd buwch yn grwm, a llwyd fydd blaidd.]

Mewn un o'i ganeuon poblogaidd, ceisiai Dafydd Iwan ateb y cwestiynau pam yr oedd ef yn arddel ei Gymreictod, pam yr amddiffynnai'r Gymraeg, pam y dymunai hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth Cymru. Ac atebai ef yn wirebol fod y cwestiynau hynny oll yn yr un categori â'r cwestiwn 'Pam fod eira yn wyn.' Aent y tu hwnt i ddadl a'r tu hwnt i ddadansoddiad cymhleth hyd at fodolaeth bodolaeth ei hun.

Yn ei waith cynnar *Tractatus Logico-Philosophicus*³, bu Ludwig Wittgenstein yntau yn trafod damcaniaeth ddiddorol ynghylch gosodiadau gwir syml a gosodiadau

¹ T. J. Morgan, 'Adolygiadau, *Early Welsh Gnostic Poems*', *Llenor*, XIV (1935), 254

² Kenneth Jackson, *Early Welsh Gnostic Poems*, Cardiff, 1935), VII

³ Ludwig Wittgenstein, *Tractatus Logico-Philosophicus* (reprint London, 1961), 6. 54.

cymhleth. Ceisiai ddadansoddi Mynegiant yn ôl hanfodion defnydd. Ceisiai chwilio am yr hyn a alwai'n 'osodiadau atomaidd'. Er nad oedd wedi dod o hyd i allwedd Tafod anweledig a 'chaeth' (*Langue*) a dychwelyd oddi yno i mewn i faes di-ben-draw, rhydd, ac agored Mynegiant⁴, y mae'r hyn sydd ganddo i'w ddweud, ar lefel Ideogenesis (sef esgor ar syniadaeth) a Semantoleg (sef gwyddor ystyr), yn ddiddorol ac yn bwysig. Sylwodd erbyn diwedd y gyfrol ei fod wedi cymryd llwybr cyfeiliornus: 'Anyone who understands me eventually recognises [my propositions] are nonsensical, when he has used them – as steps – to climb up beyond them. (He must, so to speak, throw away the ladder after he has climbed up it.)'⁵ 'Gwnawn i ni'n hunain ddarluniau o ffeithiau,' meddai'n gynnar⁶. Hynny yw, er mwyn darostwng y byd i'n deall, yr hyn a wnawn yw adeiladu lluniau. Wrth iddo ef fyfyrto ar y gwaith hwn, tybiodd fod y term 'gosodiad' yn crynhoi'r llun a wnâi iaith. A chyfanrwydd o ffeithiau o'r fath oedd y byd.

Beth bynnag oedd ei gymhelliad, llunio gosodiadau 'atomaidd', sef gosodiadau lleiafsymiol gwir ac elfennol, a oedd ym mryd Wittgenstein. Dyna'r cam cyntaf i gynrychioli gwrthrychau hynod syml. Hynny yw, ni ellid eu dadansoddi ymhellach. Ac iddo ef, enwi oedd calon y gosodiad atomaidd hwn.

Mewn maes nid amherthnasol, ar ddiwedd ei oes, sgrifennodd gyfrol gyfan *Ar Sicrwydd*⁷. Yno, bu'n ystyried eto ym mha ffyrdd y gellid dweud y gwir noeth. Yn y cwbl o waith Wittgenstein, ceisid treiddio i elfenoldeb gwirionedd, ac felly yr oedd ei fyfyrdod yn berthnasol wrth ystyried hanfod a natur gwirebau. Canys pethau felly oedd gwirebau.

Ond hoffwn ailystyried y gosodiadau gwirebol hyn, a'u dosbarthu am y tro cyntaf o safbwynt ieithyddol a llenyddol. Yr wyf am ddilyn dwy ffordd o ddosbarthu'r mathau o osodiadau a geir mewn gwirebau. Yn gyntaf, yn semantaidd. Ac yn ail, yn gystrawennol.

Sylwn yn gyntaf ar gynllun semantaidd un englyn gwirebol digon nodweddiadol:

*Eiry mynyd, gwynn pob tu;
kynneu'n bran a chanu;
ny daw da o drachyscu.*⁸

⁴ Ferdinand de Saussure, *Cours de Linguistique Générale* (5ième édit., Paris, 1960).

⁵ *Tractatus*, 6. 54.

⁶ *Tractatus*, 2. 1.

⁷ Ludwig Wittgenstein, *Über Gewissheit / On Certainty* (Oxford, 1974).

⁸ *Early Welsh Gnostic Poems*, III.

Yn aml iawn, fel yma, cyferbynnir dwy linell o ddisgrifiad amgylchfyd â dihareb ddoethinebus ddynol. Ceir yma ddwy linell o sylwadaeth am arferoldeb pethau yn yr amgylchfyd ynghyd ag un llinell o fyfyr cyffredinol am 'fywyd'. Mae'r cwbl yn gymharol ystrydebol. Ond gallwn fynd un cam pellach gyda'r dosbarthiad hwnnw. Ceir dau fath o ganu amgylchfyd. Sef: llinell 1 – disgrifiad arbennig achlysurol, lle y ceir 'ynysu' gwrthrych gan weld ei gymeriad ym modolaeth rhyw amser a lle; a llinell 2 – disgrifiad cyson cyffredinol o arferiad brân lle y ceir uno eto amser a lle. Fe'u dilynir gan llinell 3 – cyffredinoli ynghylch egwyddor, a sylwebaeth ar ffordd ddynol o fyw. Ymddengys i mi fod yma dri math o feddwl yn y pen draw, tri cham tuag at gyffredinoli, tri math o osodiad. Canfodiad neu sylweddoliad am un math o olygfa ar un amser yw'r cyntaf. 'Cyfundrefneg' er ei mwyn ei hun yw'r ail; canfyddir amryw achlysuron sefydlog mewn un. Rhesymu yw'r trydydd, lefel lai syml, a defnyddir offeryn rheswm sy'n fwy na chanfod moel yn unig, ac sy'n dod i gasgliad cyffredinol ynghylch 'egwyddorion' neu arferion.

Ni ellir llai na chasglu bod a wnelo'r tair ffordd fel ei gilydd â sicrwydd. Ond y mae'r gyntaf yn fwy sylfaenol neu gyntefig. Mae'n rhagflaenu'r lleill o ran datblygiad meddyliol, gan fod yn rhaid canfod a sythweled cyn sylwi ar gyfundrefn (na chyfundrefnu) na rhesymu ynghylch bywyd dynol. Dechreuau'r plentyn yntau drwy wahaniaethu rhwng eira a glaw, rhwng mynydd a môr. Ac yna drwy ganfod cysoni ac ailadrodd yn ail, gwêl sefydlogrwydd yr hyn a ganfyddir. Dyma ddeall cyffredin yn awr tan brofi'r gwrthrychau, heb dynnu na gwers na phenderfyniad am fywyd. Darlunio sydd yma yn y ddau: olrheinir paramedrau drwy ddwy ddelwedd heb fawr ddim arall. Ond yn drydydd, symudir i broses arall o feddwl. Moeswers yw'r llinell olaf. Cyngor yw hyd yn oed. Dyfernir arferiad neu sefyllfa gyffredin. Ceir delwedd eto – y trachysgu. Ond gwerthusir. Try'r gwrthrycholdeb yn oddrychol. Ac fe all y casgliad yn y dosbarth hwn fod yn ddiwinyddol, yn foesol, yn esthetig, neu'n gymdeithasol.

Un peth sy'n drawiadol mewn englynion gwirebol o'r fath yw mai prin y ceir pennill tair llinell yn gyfan ar ffurf ddisgrifiol arbennig. Cyd-destun yw gwireb i sylwadau mwy cyffredinol, mwy diarhebol soffistigedig. Mae hi fel pe bai gan y sylwadau gorwir amlwg y swydd o baratoi neu o ddarparu cartref i honiadau mwy dynol arwyddocaol megis 'R hwn ni rydd, ni fydd garadwy,' neu 'Bydd arglwydd yn lew,' hyd

yn oed i bethau llai amlwg neu feiddgar megis ‘Twylla gwraig y cyfoethog,’ ‘Bydd marchog yn amlwg, o’r golwg bydd lleidr.’ Rhoddir amgylchfyd gwirionedd natur felly i wirionedd dynol, gyda bodolaeth y goramlwg yn cadarnhau’r llai amlwg.

Nid yw pob englyn mor daclus ei gamre â’r un hwnnw. Ond ceisio tynnu sylw yr wyf at dair elfen strwythurol go reolaidd ynghylch ffenomen seml. Meddylier yn awr am rywun a fynnai ddisgrifio’r tywydd yn systemataidd — y tywydd o bopeth! Gellid awgrymu’r mai tair elfen sylfaenol sydd: haul, gwynt, dŵr (glaw, eira), neu eu habsenoldeb. Creant systemau tywydd ymddangosiadol anarchaidd, diderfyn amrywiol yn ôl graddfa, — amllder Mynegiant. Ond yr un yw’r potensial; eithr potensial yw ar gyfer llawer effaith. Ymeteil un yma efallai, ac arall rywfaint acw. A gellir defnyddio ambell ddelwedd yn drosiadol, hyd yn oed yn ffraeth. Ond sylwer ar yr englyn adnabyddus.

*Llym awel, llum brin, anhaut caffael clid;
llicrid rid, reuhid llin,
ryseiw gur ar vn conin.⁹*

Un ffurf gystrawennol a brofwn yn gyffredin mewn canu gwirebol yw’r ‘frawddeg enwol’. Rhoddir y term hwnnw i’r ffurf, nid am nad oes ansoddair ynddi, ond am nad oes berf. Mae amser y tymp (*tense*) wedi’i hepgor. Neu’n hytrach fe’i cyffredinolir gan gystrawen er mwyn gosod y sefyllfa uwchlaw amser. Fe’i cyffredinolir ymhellach drwy ‘ddoethinebu’r’ *arferol* am y gaeaf, y tymor mwyaf trawmatig yn yr oesoedd canol pryd yr oedd marw’n rhemp. Gosodir ansoddair fel y tynnir allan o’r enw un o’i ansoddau. Ac felly’r ail ‘frawddeg’: ‘llwm bryn’. Mae’r gosodiad hwn eto’n ailadrodd cystrawen, testun ac ansawdd: enw + ansoddair. Cyffredinoli yw *forte* gwireb. Gyda ‘bryn’, disgrifiad yw, nad yw’n wir am bob un; ond mi wna bod ar fryn wahaniaeth.

Gorffennir y llinell gyntaf yn y modd berfenwol, a’r hyn sy’n nodweddu’r berfenw yw’r ddelwedd amserol ddiderfyn. Fe’i dynodir yn symbolaidd gan Guillaume ag un llinell — heb ei ffinio’n dymopol (yn ôl tymp) ar y dechrau na’r diwedd. Nid oes ond cyfeiriad heb leoliad. Mae amser di-dor mewn berfenw fel pe bai’n disgyn yn ddelweddol o’r dyfodol ac yn diflannu’n ôl yn y gorffennol, heb oedi i ymsefydlu ar un pwynt yn unig. Cyferbynnir y frawddeg yn gystrawennol â’r ddwy enwol cynt. Ond hefyd symudir o fyd natur i fyd dyn. Personolir y sefyllfa. Mae’r ddwy linell nesaf yn dair ‘brawddeg’ eto. Maga’r rhyd grachen; rhewa’r llyn; dau osodiad disgrifiol yn meddu

⁹ *Early Welsh Gnostic Poems*, I.

ar dymp (*tense*), am Natur, i ateb y ddau ar ddechrau'r llinell cynt. Ac yna, cly'r englyn â llinell go unigryw, gormodiaith dros ben llestri, jôc swrealiaidd grotesg ymhlith milwyr, ac eto troad dynol sy'n cyfleu cyflwr cyffredinol mewn delwedd unigol.

Mae'r delweddu cwta, sydyn, yn y llinellau hyn yn adlewyrchu'r synnwyr. Medd Wittgenstein: 'Syml yw gwrthrychau'.¹⁰ Teimlir y gall gwrthrychau cymhleth fod yn rhannau ac y gallant ddod ar wahân. Ond mae'r syml yn fwy parhaol felly, yn sefydlog, yn bendant derfynol benodol. Rhaid cael gwrthrychau syml er mwyn mynegi synnwyr pendant 'absoliwt'. Beirniada Wittgenstein y frawddeg honno yn ddiweddarach am nad oes dim yn gynhenid syml mewn modd absoliwt.¹¹ (Trueni na ddywedodd fod popeth yn gyfundrefn neu'n rhan o gyfundrefn.) Bid a fo am y newid hwnnw, erys rhai o'r sylwadau cynnar ar y mater yn awgrymus o hyd: 'Gwrthrychau sy'n cyfansoddi sylweddau'r byd.'¹² Credai'r Wittgenstein cynnar y gallai gosodiadau elfennaidd gwirebol syml am wrthrychau adeiladu'r darlun llawn o'r byd oll, a'u bod yn gymorth i adeiladu gwirionedd ei hun: 'Y rheidrwydd i bethau syml fod yn bosibl yw'r rheidrwydd i synnwyr fod yn bendant.'¹³ Dyna natur gwirebau.

Symudaf yn awr i'r ail ffordd o ddadansoddi gwirebau a gosodiadau, sef y dull cystrawennol.

Tuedda Wittgenstein, ar ôl iddo roi peth sylw i'r ebychu yn lleferydd y plentyn, i roi'r holl bwyslais ar yr Enw. Wrth gwrs, nid yw'r ebychair mewn iaith yn mynd i unman yn ddeunyddiol: Och! Ew! Cyfredeg gydag iaith syniadol a wna ar hyd y ffordd heb dresmasu ar ei thiriogaeth. Ni ddechreua iaith fod yn syniadol ffrwythlon nes cyrraedd yr Enw: nid ymuna â chystrawen brawddeg aeddfetach. O safbwynt syniadol, allieithyddol yw 'ebychair' (nid ebychiad!): teimladair. Yn wir, wrth iddo geisio diffinio 'gosodiad atomaidd', y mae Wittgenstein yn gwamalu rhwng gosodiad y wireb ddisgrifiadol seml ar y naill law a'r Enw syml (neu hyd yn oed gyfres o enwau syml) ar y llall. Iawn y pwysleisia arwyddocâd yr Enw fel ffenomen, wrth gwrs, ac Enwi fel gweithgaredd.¹⁴ Ond ceir tri phrop traethiadol mewn brawddeg sylfaenol lawn ddatblygedig ar gyfer amser a

¹⁰ *Tractatus*, 2. 02.

¹¹ Ludwig Wittgenstein, *Philosophische Untersuchungen /Philosophical Investigations* (Oxford, 1953), 47-49.

¹² *Tractatus*, 2. 021.

¹³ *Tractatus*, 323.

¹⁴ *On Certainty*, 531, 543, 568-72, 576-7, 629.

lle. Mewn iaith y mae pob gair yn ramadegol ac yn perthyn; ac felly yn rhan ymadrodd. Dyna sy'n gwneud gair yn aeddfed. Ond tri safle yn unig sydd mewn 'Rhannau Ymadrodd Traethiadol',¹⁵ ac ystyr i bob safle, er defnyddio pedair rhan ymadrodd. Er mai semanteg yw priod ddiddordeb Wittgenstein, ceir ystyr ym mhob un o'r gweddau mawr ar ieithyddiaeth — ffonoleg, lecsicoleg, morffoleg, semanteg, cystrawen, arddulleg. Ac er mwyn iawn ddeall natur iaith, camgymeriad fu iddo ef ynysu y bedwaredd o'r rheini heb gofio'r lleill.

Dyma'r tri phrop mewn brawddeg gyflawn:

I Enw	II Ansoddair Berf	III Adferf
Hunan-ddibyniaeth	Dibyniaeth (i)	Dibyniaeth (ii)

Defnyddir yr hyn a elwir yn 'Rhannau Ymadrodd Traws-draethiadol'¹⁶ er mwyn cynnal perthynas y rhain: felly, yr arddodiad, cysylltair, rhagenw, bannod, a berf gynorthwyol. Mae'r tri phrop cynhaliol cyntaf (sef y rhai traethiadol) yn cael eu diffinio'n semantaidd yn ôl eu safleoedd mewn perthynas. Yn y gyfundrefn hon y ceir y cynllun cyflawn ar gyfer llunio pob brawddeg bosibl. Ceir tri math o osodiad atomaidd yn gystrawennol:

- (a) *Y frawddeg un-elfen*¹⁷ Enwi, fel arfer. Yn y fan yna y ceir y weithred noeth gyfundrefnol o gysylltu arwydd seiniol ag arwyddedig neu ystyr ddelweddol, neu lecsem â morffem. Mae yn wir frawddeg, megis yn y rhybudd neu'r ebychiad 'Tân!', neu yn yr ateb i'r ymholiad 'Beth ych chi?' 'Crydd'.

Er bod yr arwyddiant hwn yn osodiad atomaidd yn gystrawennol, nid yw'n ffurfio gwireb lenyddol. Bydd rhaid cael dwy elfen o leiaf. Hynny yw, nid digon yw hawlio bodolaeth mewn gwireb: rhaid hefyd ddatgan rhyw ansawdd naill ai mewn gofod (e.e. ansoddair; neu enw genidol neu enw ansoddeiriol) neu mewn amser (berf) cyn bod gwireb yn bosibl. Hynny yw, 'Enw + rhywbeth' yw gwireb. Nid yw enw + sero o ran

¹⁵ Walter Hirtle, *Language in the Mind*, (Montreal, 2007), 120-139.

¹⁶ *Language in the Mind*, 130-5, 186-8.

¹⁷ R. M. Jones, *System in Child Language*, (Cardiff, 1970), 106-142.

gramadeg ond yn datgan bodolaeth, er bod cywair ac arddull mewn Mynegiant yn amrywio swyddogaeth. Datganiad o wirionedd sicr yw enwi.

(b) *Y frawddeg ddwy-elfen.*¹⁸ Mewn gosodiad atomaidd deuol, fe ellir dweud y gwir am enw drwy dynnu allan o'r enw ryw ansawdd i fod yn ansoddair. Yr oedd y gosodiad un-elfen yn ymestyn drwy ymddwyn yn gynhaliol i ddibyniaeth o'r radd gyntaf uniongyrchol. Ond heblaw perthynas gystrawennol, y mae'r naill elfen yn treiddio i'r llall o ran ymwybod â gwirionedd. Cyfosod yw dull y cysylltu hwn. Ond diau fod ergyd y cysylltu yn gallu amrywio o ran tanlinellu ansawdd, perchnogaeth, neu effaith; neu'n gyfarchol:

*llym awel, llwm bryn, hir nos, llwm rhos, llwyd rhiw, gwyrddliw môr, glas glan, ac yn y blaen.*¹⁹

Wrth lunio cofnodion am dwf iaith plentyn, dyma rai o'r rhai deuol cyntaf a nodais, lle y mae'r cyfarchol yn ymuno o fewn brawddeg 'aeddfe'd' yn gydlynol. Gweithreda dibyniaeth megis cysylltyn:²⁰ mami dw (Mam, cer i nôl dŵr i mi); dad dato (Dad, edrych ar y tractor); dadi gac, lowli dwg (Mae Dadi'n grac. Mae Lowri'n ddrwg).²¹ Ar ryw olwg, yn yr oedran cynnar, y mae pob cysylltyn yn fath o berchnogi, troir dwy elfen yn berthynas drwy'u clymu mewn un llyf o lafar. Gofodol yw'r cwbl ar y dechrau, heb amser, lle y mae enw o ran ystyr yn cynrychioli gwrthrych syml. Cyswllt 'dibynnu' (*incidence*) yw'r berthynas unol. Yn wir, yn ofodol, nid oes eto syniad o safle tri-dimensiwn mewn gofod fel sydd pan fydd y gyfundrefn o dri pherson rhagenwol yn datblygu.

Felly, wrth ddadansoddi 'Hir nos, gordyar (sef 'trist') morua', gwelwn gyfosod dau gymal ansoddeiriol, a thrwy'u cyfosod fe'u cysylltir yn ansoddol tan olygu, 'mae'r morfa'n drist oherwydd bod y nos yn hir, neu mae'r morfa'n drist a'r nos yn hir.'²² Yn wir, o ran dadansoddiad confensiynol gellid ystyried y llinell yn ddwy frawddeg (enwol) olynol, neu'n un prif gymal ynghyd â chymal adferfol.

¹⁸ *System in Child Language*, 143-179.

¹⁹ *Early Welsh Gnostic Poems*, I.

²⁰ Trafodir cyfosod dibynnol (sef 'dibyniaeth', *incidence*) yn R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd* (Barddas, 2003), 20-24.

²¹ R. M. Jones, 'Astudiaeth o ddatblygiad ieithyddol plentyn hyd at dair blwydd oed mewn cartref Cymraeg'. 1965, I-II, 115-147 (Traethawd PhD, Prifysgol Cymru).

²² *Early Welsh Gnostic Poems*, II, 2.

Fel arfer, dynodir y math o frawddeg sy'n dra chyffredin mewn gwirebau, megis 'purdu bran, buan jyrchwyn'²³ â'r term 'brawddeg enwol bur'. Dywedir mai dyna'r term priodol, am y rheswm negyddol nad oes berf yn y frawddeg. Ond dogma anghywir yw disgwyl berf ym mhob brawddeg. Fe geir ansoddair yma.

Yn fynych iawn mewn pennill, symudir ymlaen o'r ddwy wireb at y doethinebu neu'r foeswers. Dyma lacio yn y berthynas.

Yr hyn sy'n gyffredin i'r disgrifiad o'r foeswers yw eu symlder a'u huniongyrchedd. Beth bynnag oedd bwriad y bardd wrth draethu'r fath amlygrwydd, os nad oedd gwireb yn wir, nid oedd dim gwirionedd; neu nid oedd dim yn fwy gwir. Yr ydym oll yn byw o fewn rhagdyb bod gwirionedd i'w gael. Cymerir hyn yn ganiataol: dyna ddiffiniad o'n rhagdyb (neu ragosodiad) absoliwt ar gyfer iaith. Amgylchfyd natur a dderbynnir yw, ac y mae'n rhaid ei dderbyn er mwyn byw, dyna'r hyn sy'n cyflyru'r ymateb i'r drydedd wedd neu'r trydydd math o osodiad. Myn cyfundrefn Tafod gadw disgyblaeth y Gwir.

(b) *Y frawddeg dair elfen*²⁴ Nid rhaid i'r gystrawen allanol adlewyrchu'r gosodiad mewnol a gyflwynwyd yn ôl dibyniaeth o olyniaeth allanol 1, 2, 3. Gellid er enghraifft, fel yng nghyfres 'Eira Mynydd'²⁵, ddefnyddio gair neu ymadrodd yn ôl modd adferf amgylcheddol ar y blaen yn y fframwaith lleol neu amserol, gan oleddfu gosodiad deuol; a chyda llaw, sôn yr ŷm am safleoedd neu berthnasoedd arddulliol, yn hytrach nag am gonfensiwn neu hanfod arferol geiriau — hynny yw, gall enw weithiau weithredu fel ansoddair. O ran safle yn olyniaeth allanol y frawddeg, gellir gosod yr adferf neu'r ymadrodd adferfol ar ddechrau o ran cyflwyniad:

Eira mynydd	/	hydd	/	ym mro
3		1		2

3 = ymadrodd adferfol lle; 1 = goddrych; 2 = ansoddair lleoli ymadroddol

Dyma'r tri safle yn natblygiad y plentyn i'r pen draw yn natblygiad y frawddeg gnewyllyn (cymharer y trydydd, sef ymadrodd adferfol 'Eira mynydd' â 'Ganllath o gopa'r mynydd'). Yn ôl fy nghofnodion²⁶, egwyl o ryw ddau fis a geid rhwng ymddangosiad y frawddeg neu'r gosodiad un-elfen a'r frawddeg dair-elfen yn iaith y

²³ *Early Welsh Gnostic Poems*, III, 14.

²⁴ *System in Child Language*, 180-204.

²⁵ *Early Welsh Gnostic Poems*, III.

²⁶ 'Astudiaeth o ddatblygiad ...', 183-202.

plentyn: dadi mind ma (ma's); dadi glo mami (Mae Dadi'n mynd i nôl glo i Mami); bad mind mo (Mae'r bad yn mynd ar y môr); dwdi stôl dadi (Mae Dwdi ar gadair Dadi).

Yr hyn sy'n digwydd, wrth gwrs, yw adeiladu brawddegol drwy ganfod perthynas o ryw fath, ni waeth beth, a chyfosod geiriau fel y bo gan y rheini gyswllt gofodol-amserol. Cynyddid yn feunyddiol yn y gallu i ganfod (o fewn cyd-destun iaith gonfensiynol oedolion) sut y mae un peth neu weithred neu leoliad yn perthyn i un arall: bila Dadi (ymbrela Dadi). Wrth weld baw ar gefn dafad, meddid, 'baw mamw bas' (Baw; mae'r ffarmwr i fod i roi bath iddi). Miniogi min ystyr yw twf morffemig.

Pwyso ar ei gilydd yw'r cyswllt rhwng y geiriau: yr archgyfundrefn gynieithyddol yw *Dibyniaeth / Cynhaliaeth*, hynny yw disgyrchiant meddyliol.

bid		goch		crib ceiliog ²⁷
2		3		1

Mae'r prif enw (neu ymadrodd) yn hunan-gynhaliol. Mae ganddo hunan-ddibyniaeth, hynny yw, yn fewnol ystyrol. Mae gan y ferf (neu'r ansoddair neu'r enw genidol) ddibyniaeth o'r radd gyntaf ar yr hunan-ddibynnol. A'r 'ad-ferf' yn drydedd, dibyniaeth o'r ail radd a geir ar y dibynnol cyntaf. Mae pob elfen yn wahanol o ran natur neu ansawdd, ond yn undod yn y gyfundrefn gryno. Sythwelediad isymwybodol yw'r norm mewn cyfundrefn. Gall y drydedd elfen fod yn wrthrych (enw) o ran confensiwn, yn adferf, yn ymadrodd adferfol. Ond o ran cyfundrefn, cyflawna nodweddion y berthynas gyfundrefnol, ad-ferf. Dyna undod meddyliol elfennaidd y canu gwirebol, peth sy'n cynnwys o hyd yn y bôn un elfen, dwy elfen, neu dair elfen.

Wedi cael y frawddeg gnewyllyn, gellir adeiladu'n fwy cymhleth drwy gorffori ymadroddion cyfundrefnus, neu gymalau cyfundrefnus yn ôl amodau tebyg i'r rhai yn y frawddeg dair-elfen. Ond amhriodol yw cymhlethdod i wireb.

Potensial-araf yw datblygiad cyfundrefnau a gramadeg yn Nhafod yr iaith: potensial-gyflym yw cynnydd geirfa. A dywed hyn rywbeth am ddsbarthiad y mathau o osodiadau a geir. Rhaid mynd atynt yn gyntaf o safbwynt cyfundrefn ramadegol. Wedyn, gellid ystyried y Sffêr Ystyr a'r Themateg. Mae'r berthynas rhwng yr elfennau adeileddol mewn brawddeg yn sylfaenol syml; mae'r nifer o bosibiliadau i ddiffinio'r berthynas honno yn gyfyngedig ac yn isymwybodol. Ond mae'r eirfa, a'r sefyllfaoedd, a'r

²⁷ *Early Welsh Gnostic Poems*, VIII.

arferiadau, a'r defnydd yn afrifed aruthrol, mor chwâl ac amrywiol eu potensial nes bod y modd o ddadansoddi'r Deunydd yn gofyn dulliau amryw o strwythuro. Cynnill yw'r Tafod: helaeth yw'r Mynegiant.

Yn semantolegol (h.y. o ran ffurfiau ystyr), fe geir cryn wahaniaeth yn y mathau gwahanol o Ddeunydd neu sefyllfa eirfaol mewn canu gwirebol. Yr hyn sy'n sefydlog yw'r ymwybod o sicrwydd amlwg. Bydysawd o sicrwydd yw. Ceir dwy gyfres enwog o benillion o'n cyfnod cynnar, y rhai a elwir — y naill yn 'Gnodiau' a'r llall yn 'Bidiau'. Mae pob un o'r wyth bennill cyntaf yn y 'Gnodiau' yn dechrau â'r gair 'Gnawd', sef 'natur hyn a'r llall yw ...' Felly, mewn cerdd am y gaeaf, dywedir:

*Gnawt nyth eryr ym blaen dar.*²⁸

Hynny yw, natur yr eryr yw adeiladu nyth yn uchel mewn derw. Dyna'i gynneddf. Pan ddywedir '*gnawd uoch turyaw kylor*', y mae'n meddwl 'natur moch yw turio mewn cnau daear'. '*Purdu bran*: 'nid arfer brân yw bod yn ddu', ond 'du yw natur brain.' Felly, mewn ymadroddion fel 'gwlyb dŵr' neu 'gwyn eira', drachefn nid datgan y mae'r bardd ddim byd syfrdanol newydd. Nid disgrifio chwaith yn y bôn. Fel arall, y mae'r sylw mor hen â bodolaeth dirnadaeth. Meddai Kenneth Jackson yn ei gyfrol ar y cerddi hyn: ²⁹ 'The meaning of "gnawd x y" is "it is an attribute of x to be y"; there is no specific implication that x is usually y but not always.' Nid 'custom' Wittgenstein sydd yma, felly, ond 'gorfodaeth'.

Mewn modd cyffelyb, ceir dwy gerdd (neu fersiynau cyfredol) y rhoddwyd y teitl 'Bidiau' iddynt. Yn y ddwy y mae pob pennill yn dechrau â'r gair 'Bid'. Yn wir, mewn 8 o'r penillion yn y gerdd gyntaf, y mae pob llinell yn dechrau â'r gair 'Bid', a thebyg yw'r ail. Esbonnir 'Bid' gan Jackson ³⁰ fel 'is by nature'. Hynny yw, dyma'i fodolaeth, ei bod hanfodol. Mae ef yn cymharu'r gair Eingl-Sacsonaidd *sceal*, 'must needs be if it is to be at all'. A defnyddir y gair 'teithi' i gyfleu'r ansawdd, ac 'annyanawl' sy'n golygu 'innate'. Yr wyf am awgrymu bod a wnelo hyn oll â'r naws a'r adeiladwaith seicolegol ynghylch awdurdod yn yr Oesoedd Canol. Ffitia i drefn meddwl gwleidyddiaeth a chrefydd. Roedd yna gysylltiad rhwng ansawdd diamheuol y meddwl gwirebol hwn a'r canu mawl cynnar Cymraeg. Nid canu Platonaid delfrydol yn unig oedd y canu cynnar.

²⁸ *Early Welsh Gnostic Poems*, IV.

²⁹ *Early Welsh Gnostic Poems*, 51.

³⁰ *Early Welsh Gnostic Poems*, 61.

Dodid gwirebau o fewn cyd-destun y canu mawl i Dywysog i hawlio absoliwtrwydd gwirionedd. Dyma dreiddio i deithi tywysog. Datgan yr oedd y bardd yr hanfod a oedd yn y bôn eisoes yn orfodol i wisgo'r term 'tywysog' neu 'frenin', nid delfryd i edrych ymlaen ato. Gellid cymharu fel y gwnaeth Kenneth Jackson, 'Cotton Gnomes I.i, *Cyning sceal rice healdan*, i.e. 'a king, if he is to be a genuine king (cf Welsh *teithiog*), must needs control the state.' Dyma efallai yw'r hyn a oedd gan Wittgenstein mewn golwg, yn hytrach na 'custom'. Mae hyn yn ymylu ar hawl ddwyfol oherwydd bod y swyddogaeth yn ddirprwyol i Dduw. Felly yr oedd Natur yn cynrychioli Duw a'i wirionedd. Ym mhennill olaf y Gnodiau, sef yr uchafbwynt, clywch y bardd:

*Oerwlyb mynyd, oerlas ia;
ymdiryet y Duw nyth dwylla.*

Nid llunio yn ôl llenddull canu crefyddol y mae'r bardd, er nad anghyffredin fu cymysgu llenddulliau, fel y dangosodd Dr Jenny Rowland³¹ pan sylwai ar gymysgu saga â gwireb. Dyna, gredaf i, un cyd-destun naturiol i'r canu gwirebol a'r canu mawl. Ond diffiniog oedd y cwbl. Gwnaeth fwy o lawer na 'moli'. Hawliai hanfod bod: yr oedd yn dadlau mai dyna'r orfodaeth yng nghreadigrwydd pethau. Math o arddull oedd. Nid llenddull. Medd Dr Rowland ymhellach³² (*Early Welsh Poetry*, gol. Brynley F. Roberts, 195), 'Another natural blur occurs when gnomes about God and morality become predominate, and the poem slips towards the religious-preceptual class, sometimes even borrowing floating verses found in that type of verse. The gnostic-religious mix is found in two of the *Duad* gnostic poems.' Perthynai Duw i bob llenddull.

Tybed a fyddai'n gywir dadlau bod y canu gwirebol yn fwy cydnaws i faes y canu crefyddol nag i'r un maes arall, oherwydd bod a wnelo'r naill a'r llall yn fwy uniongyrchol â'r absoliwt. Cymerer y gerdd weddol hir o Lyfr Coch Hergest³³. Dyma gyfres o 33 o englynion, a'r cwbl yn troi o gwmpas anghenion amlwg dyn, caledi gwir bywyd, gydag ambell linell galonogol. Ac yna bob hyn a hyn, briga llinell o sicrwydd crefyddol syml i'r golwg:

pen. 4. *namyn Duw nyt oes dewin* (yn llinell olaf yn y pennill)

21. *namyn Duw nyt oes dial* (eto yn llinell olaf y pennill)

³¹ Jenny Rowland, 'Genres', yn Brynley F. Roberts, *Early Welsh Poetry* (Aberystwyth, 1988), 179-208.

³² 'Genres', 195.

³³ *Early Welsh Gnostic Poems*, VI.

25. *ny chwsc Duw pan ryd gwaret* (llinell olaf eto)

31. *trugar daffar* (darpariaeth) *Duw goreu* (eto)

Dyma fframwaith pendant absoliwt i wasgaredd gwirebol y gerdd: thema yw sy'n apelio at yr awdurdod uchaf. Mae'r naill ochr yn cadarnhau'r llall. Mae amlygrwydd gwirionedd y gwirebau amgylchfyd a dynol yn cadarnhau arwyddocâd Duw. A phresenoldeb Duw yn y gerdd yn cadarnhau rhagluniaeth benarglwyddiaethol ffynhonnell pob gwirionedd. Dyma'r Absoliwt mewn gair o ran ffurf ac ystyr.

Nid annhebyg mewn cerdd fyrrach³⁴, sef Bidiau I, y cawn linell olaf y pennill cyntaf, 'llewenyd dyn, Duw ae mawl', yn cael ei hadleisio yn llinell olaf pennill un-arddeg 'bit doeth detwyd, Duw ae mawl'.

Yng ngherdd y Gnodiau³⁵, wedi'r holl 'gnodio' ceir pennill olaf:

pen. 12. *Oerwlyb mynyd, oerlas ia;
ymdiryet y Duw nyth dwylla;
nyt edeu hirbwyll hirbla.*

Gallwn gyfeirio at elfennau ysbrydol nid annhebyg yn brigo'n strwythurol mewn cerddi eraill:

pen. 5. *namwyn Duw nyt oes dewin.* (llinell olaf)³⁶
6. *trugar daffar Duw goreu.* (llinell olaf)
1. *llewenyd dyn, Duw ae mawl.* (llinell olaf)³⁷
11. *bit doeth detwyd, Duw ae mawl.* (llinell olaf)
9. *bit doeth dedwydd, Duw a'i nawdd.* (llinell olaf)³⁸

Yn 'Englynion y Misoedd'³⁹ ceir apêl gyfredol at seintiau:

pen. 1. *gwir a ddyvod Kynvelyn.*
8. *gwir a ddyfod Sain Brenda.*
at Grist 7. *gwir a ddyvod mab maeth Mair,
"Duw a farn, dyn a levair."*

at awdurdod Duw 9. *golwg Duw ar dylodion.*

Ac fe'i rhydd o fewn cyd-destun tragywydd:

³⁴ *Early Welsh Gnostic Poems*, VII, Bidiau I.

³⁵ *Early Welsh Gnostic Poems*, IV.

³⁶ *Early Welsh Gnostic Poems*, V.

³⁷ *Early Welsh Gnostic Poems*, VII.

³⁸ *Early Welsh Gnostic Poems*, VIII.

³⁹ *Early Welsh Gnostic Poems*, IX.

11. *dyn a da'r byd a dderfydd,
da nefol tragwyddol fydd.*

Megis yr oedd gwireb gyffredin yn rhan o sefydliad bodolaeth ac yn rhan o fframwaith hanfodol meddwl, felly yr oedd Duw yntau yn awdurdod yn y gwirionedd amgylchfydol. Rywsut, yr oedd yr ymwybod gwrthrychol ac allanol hwn yn arweiniad clasurol priodol cyn symud ymlaen at hunan-ymwybod.

Dyma, gredaf, i'r beirdd oedd y ffordd briodol hefyd i synied am awdurdod a threfn a fframwaith a seicoleg y canu mawl i Dywysog. Rhan oedd hynny o'r Drefn.

Bid siŵr, yr oedd y bardd yn ei fawl yn adeiladu delwedd o frenin fel 'delfryd', ond nid i fod yn batrwm, eithr i fod yn y patrwm, nid i adlewyrchu cysyniadau cynhenid, eithr galluoedd cynhenid, nid egwyddorion strwythurol eithr y strwythurau eu hunain, ac i'w esbonio a'i ddyrchafu mewn hierarci feddyliol. Nid delfryd Platonaid mohono, fel yr awgrymai Saunders Lewis. Mynegi trefn, yn syml, yr oedd. Cadarnhau trefn a wnâi gwirebu. Ond mynnid hefyd fod y drefn honno yn gynhenid. Hynny yw, yr oedd y brenin yn ddewr ac yn hael, fel yr oedd eira'n wyn. Doedd dim eisiau gofyn pam, meddai Dafydd Iwan yn gywir. Dyna gategori cryf, a cheisiai Dafydd Iwan — megis beirdd yr uchelwyr — osod yr hyn a ymddangosai (i wrthwynebwyd) yn frau, neu mewn perygl, neu yn ddymunol, — o fewn cyd-destun y digwestiwn. Hynny yw, dymunid benthyca cadernid y cynhenid orfodol a'i osod yn gynhaliath i'r tymhorol. Dyna fframwaith y traddodiad mawl.

Ceir yr un fath o gyfathrach rhwng Cerdd Dafod a Cherdd Fyngiant. Sonir am y Beiau Gwharddedig megis Rhy Debyg neu Ormod Odlau, a ddaeth (yn isymwybodol) yn wedd ar orfodaeth chwaeth mewn Cerdd Dafod, yn gyfundrefn felly, lle y methodd bai yr un mor ddi-chwaeth (ym marn rhai beirniaid eraill), sef gormod o Gynghanedd Sain mewn cerdd, â gwreiddio yn yr isymwybod fel cyfundrefn. Ni feddai'r 'egwyddor' honno, fel bai, ar y crynoder cyferbyniol cywir deuol/triol, sy'n angenrheidiol mewn Cerdd Dafod ac Iaith, cyn y lluniai'r isymwybod gyfundrefn iddi.

Daeth Wittgenstein i'r casgliad fod yna fath beth â gosodiadau neu 'gredoau' sy'n sylfaen i fodolaeth meddwl o gwbl. Dadleuai: 'Mae'r plentyn yn dysgu drwy gredu'r

oedolyn, a daw amheuaeth *ar ôl* credu.⁴⁰ Ymhellach: ‘Nid amheuaeth mo’r amheuaeth sy’n amau popeth.’⁴¹ Ac eto: ‘Mae’r gêm o amau yn rhagdybied sicrwydd.’⁴²

Yn y modd yr oedd ef yn derbyn fel sicrwydd y gosodiadau ‘diffiniol’ megis ‘Y mae fy mab yn wryw’, yr oedd yn derbyn iaith a oedd heb fod yn wrthwynebol. Categori cyffelyb ar lefel ddisgrifiadol oedd ‘Dyma fy mraich’. Nod y gwirebau yw sefydlu cydestun sicrwydd diamau y gall bywyd fodoli o’r tu mewn iddo. Felly hefyd yr ieithydd a’r gwyddonydd ym mhob man. Chwiliant ill dau sicrwydd. Cam tra phwysig. Gwna mewn Mynegiant y math o beth a ffurfir ac a wneir yn isymwybodol gan Dafod.

Tafod, y gyfundrefn o gyfundrefnau, yw un o’r gweddau mwyaf ‘sicr’ a diamheuaeth a chymryd-yn-ganiataol ar iaith. Gellid troi a throsi brawddeg yn gystrawennol weithiau cyn ei chael yn osodiad boddhaol. Ond nid felly gramadeg. A’r rhyfeddod i mi yw nad aeth Wittgenstein ar ôl *Tafod* wrth drafod iaith. Ni bydd neb yn y Gymraeg yn amau mai tri pherson sydd i’r rhagenw. Dyna’r math o sicrwydd sy’n gwneud meddwl yn bosibl, y sylfaen sy’n caniatáu ‘gwirionedd’, ac yn wir na all fod yn anghywir. Felly, hefyd, cyfundrefn y rhannau ymadrodd lle y mae ansoddair yn dibynnu ar enw, neu y mae’n peidio â bod yn ansoddair. Sylwer: nid gwneud gosodiadau mewn Mynegiant a wna’r ddefnyddiau ieithyddol hyn, ond y mae’r adeiladu hwn yn ymateb i sicrwydd parhaol meddwl o ddydd i ddydd.

Yr hyn a wnaeth Gustave Guillaume, mewn degau o gyfrolau,⁴³ a chyda manylder aruthrol a channoedd o enghreifftiau, oedd archwilio natur *Tafod*, a’i gyferbynnu â Mynegiant, mewn modd yr oedd Wittgenstein fel pe bai ar fedr ei wneud, ond heb wahaniaethu’n ddigon penodol am nad oedd wedi ymdroi i gwestiwn Ffurf. Brysiai ef yn ôl i’w briod faes, sef Semanteg a Mynegiant ystyr. Nid peth amhriodol.

Mewn gwirionedd, y mae angen ystyried y rhaniad a geir yn y ddeuliaeth o ‘sicrwydd’ a ddisgrifir gan Wittgenstein⁴⁴: sef y gosodiadau diffiniol ‘na ellir eu gwadu heb groesddywediad fel Bachgen yw brawd’ ... a’r ‘gosodiadau sydd ond yn digwydd bod yn wir ond gallent fod yn anwir.’ Cyflwyno hyn ddeuliaeth eto debyg i ‘Dafod’ a ‘Mynegiant’ (gw. Roy Harris, *Language, Saussure and Wittgenstein*, London, 1990).

⁴⁰ *On Certainty*, 160.

⁴¹ *On Certainty*, 450.

⁴² *On Certainty*, 115.

⁴³ Ceir rhestr ddefnyddiol yn *Language in the Mind*, 264-5.

⁴⁴ Walford Gealy, ‘Ludwig Wittgenstein, 1896 – 1951’, *Efrydiau Athronyddol*, 69 (2006), 143.

Dengys Wittgenstein fod y math o sicrwydd sy'n empeiraidd a'r math o sicrwydd sy'n rhesymegol yn ystyrlon debyg. Dyma eto ffordd gyfun o 'ddefnyddio' iaith. Ond gwahanol yw Tafod (y potensial) a Mynegiant (y defnydd) yn eu natur Cyfundrefnol reidiol. Yr amryw o fewn yr un, yr anweledig cyn y gweledig, yw Tafod. Crynodeb o egwyddorion neu o ffurfiau. O ran ansawdd y mae ei gynllun yn wahanol i Fynegiant sy'n cyflwyno amllder diderfyn o osodiadau ar sail Tafod.

'Pan ddechreuwn am y tro cyntaf *gredu* rhywbeth, ni chredwn osodiadau sengl yn unig, mae'n gyfundrefn gyfan o osodiadau. (Gwawria goleuni gan bwyll ar draws y cwbl).'⁴⁵

Awgrymais gynnu mai helpfawr oedd gosod traddodiad mawl Taliesin o fewn cyd-destun gwirebol yn hytrach nag yng nghyd-destun Plato. Natur Urien oedd ymladd yn ddewr a bod yn hael. Dyna gynneddf brenhindeb. Ond euthum un cam ymhellach, a fyddai (mi obeithiwn) yn symud tuag at sylweddoli cydlyniad gwreiddiol barddoniaeth mewn gweledigaeth unol. Sef sylwi ar hyn oll o fewn cyd-destun ein canu crefyddol. Mae Kenneth Jackson yn ei drafodaeth ar y 'bidiau'⁴⁶ yn tynnu sylw at yr 'Exeter Gnomes' Eingl-Sacsonaidd, '*God sceal mon aeresst hergan, "one shall praise God first."*' Hynny yw, nid yn unig y mae angen (megis yn ôl Cyfraith Hywel) i ganu cerdd i Dduw cyn canu cerdd i Frenin daearol, ond yn Hierarci'r meddwl y mae'r Absoliwt yn gyfeirbwynt diffiniol i wirebau. O ran hanfod y mae'r canu crefyddol yn fwy na tharddiad hanesyddol i lenyddiaeth yn gyffredinol: y mae'n darddiad i drefn meddwl. Hyn sy'n rhoi'r fframwaith i Wirionedd. Y mae'n cynnwys hanfod y gwerthoedd esthetig. Y mae'n crynhoi canolbwynt bodolaeth llenyddiaeth. Fel hyn y syniaf am ddechreuad Hierarci Deunydd o safbwynt Cristnogol confensiynol y cyfnod.

Down yn ôl at yr ymadrodd 'must needs be if it is to be at all'. Dyma 'reswm digonol' Leibniz. Dyna Fodolaeth bodolaeth. Fe'n heria ni: 'Rhowch bosibilrwydd arall.' Medd y gerdd wirebol 'Calan Gaeaf':

*Kalan gaeaf, garw hin,
anhebic y gynteuin;
namwyn Duw nyt oes dewin.*⁴⁷

⁴⁵ *On Certainty*, 141.

⁴⁶ *Early Welsh Gnostic Poems*, 61-2.

⁴⁷ *Early Welsh Gnostic Poems*, V, 5.

Ond mor arwyddocaol â bodolaeth, hyd yn oed, yng nghyd-destun Tafod, fe geir gan y beirdd ddatliad o ‘Drefn’. Holwn: sut yr ysgogwyd y gyfeilles honno mewn esblygiad? Dyna eto y lle a’r swyddogaeth a’r hanfod sydd i berthynas y canu crefyddol a’r canu gwirebol o fewn cyd-destun cyflawn barddoniaeth, sef bodolaeth. Rhydd yr Absoliwt gyfeiriad y gellir diffinio angenrheidrwydd trefn yn y meddwl a’r deall yn ei ôl, yn yr iaith, ac mewn cymdeithas. Dyma fu arwyddocâd moli’r Drefn i’r Cynfeirdd, i Feirdd y Tywysogion, megis i Feirdd yr Uchelwyr. Dathlu yr oeddent drwy Gerdd Dafod ‘Dafod’ y gymdeithas, y ddeddf a’i clymai’n un, a hefyd yr hyn sy’n dragwyddol o fewn amser: medd canu gwirebol ‘Gorwyn’:

*pan gysco pawb ar gylchet (blanced gwely)
ny chwsg Duw pan ryd gwaret.*⁴⁸

Iawn y pwysleisia Dr. J. Rowland⁴⁹ mor hylif yw’r cysyniad o lenddulliau i feirdd. Ac y mae canu gwirebol yn gyffredin mewn canu natur, canu saga, a chanu crefyddol. Efallai mai yn yr enghreifftiau amhur neu gymysglyd y cyfyd y cwestiwn ynghylch swyddogaeth a statws canu gwirebol. Mynegiant yw, nid Tafod. Tybed ai bod yn gyd-destun oedd ei brif swyddogaeth, hyd yn oed yn baradocsaidd pan nad yw hyd yn oed felly i ddim arall, hynny yw heb ei fod yn cydreddeg â llenddull penodol, eithr yn syml yn cyfeilio i fywyd pob dydd ei hun, y tu allan? Hynny yw, arddulliol oedd. Golygwyd y testun canlynol gan yr Athro Marged Haycock⁵⁰. Ym mhennill cyntaf y gerdd ceir datganiad o fodolaeth seml, heb ddatblygu sylw pellach:

*Eiry mynyd, gwynt am berth,
Kanyis creawdyr Nef a’ m nerth,
Ae kysgu a wna Gwrnerth?*

O’r braidd fod y llinell gyntaf yn amlwg berthnasol i’r gweddill yn yr un pennill. Ond rhydd gyd-destun tymhorol confensiynol. Ac yn y gerdd hon, gan fod Gwrnerth yn marw yn Rhan I y gerdd, y mae’r amgylchfyd gaeafol yn gyfaddas ac o bosib yn achosol. Ond rhydd sylw felly hefyd i’r hyn a alwaf yn ‘nerth gwirebol’.

Mewn englynion eraill, cynhwysir diarhebion. A chyfrannant hwythau o’r un nerth.

⁴⁸ *Early Welsh Gnostic Poems*, VI, 25.

⁴⁹ ‘Genres’.

⁵⁰ Marged Haycock, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, (Barddas, 1994), 338-348.

Beth yw ‘nerth gwirebol? Heb geisio damcaniaethu neu beidio ynghylch tarddiad siamanistig neu grefyddol barddoniaeth, tybiaf fod a wnelo canu gwirebol â phresenoli’n oramlwg, arddel y gwir syml fel ffigur ymadrodd i’r gweddill o’r canu. Darpara hefyd gyd-destun o ddibynolrwydd. Ar ryw olwg, cyflwyna ragosodiad ynghylch posibilrwydd o absoliwt — rhagdyb o fframwaith sicrwydd. Os derbyniwn fod y math hwn o farddoni’n ddifrif ac yn perthyn hyd yn oed i lefel barchus iawn o ran dosbarth, mae’r wireb o fewn pennill cymysg yn gyfeirbwynt o egni cynhaliol. Gall ddirywio i fod yn badio neu’n fath o rigymu llanw; ceir symler amlwg yn caniatáu i’r arwynebolaf o feirdd ruthro i mewn; ond o ran hanfod barddoneg, mae gwirebu yn ymwneud â math o absoliwtrwydd strwythurol i’r meddwl.

*

*

*

Digwydd canu gwirebol o bryd i’w gilydd o fewn cyd-destun arwrol gan y Cynfeirdd a chan y Gogynfeirdd. Ac am y rhesymau hynny ni ellir llai na meddwl am y difrifwch a’r unplygrwydd a bwysleisir oherwydd y cyfryw osgo. Rhoddir y ‘ffeithiau’ gwirebol oherwydd haerneiddiwch eu gwirionedd. Mewn cân ddadolwch gan Elidir Sais, sef cerdd i wneud cymod wedi tramgwyddo, y mae ‘Dadolwch Llywelyn ab Iorwerth’ yn dechrau gyda’r llinellau (mewn diweddariad):

*Yn arferol y bydd milwyr yn yfed gloyw-win o gorn yfed
O gynullfan[y]cyrn yfed;
Arferol yw caneuon cogau dechrau haf,
Yn arferol y tyf tywysennau o egin,
Arferol i ddoeth yw cyfoeth teilwng;
Nid naturiol, nid bodlon y trist.⁵¹*

Mae hi fel pe bai Elidir yn parodio’r Canu Gwirebol, haenen arddulliol lai aruchel yn y traddodiad barddol efallai, ond o bosib ei fod ef yn ceisio cyfeirio at yr un cyd-destun o sicrwydd. Adeiledir math o fyd. Adeiladwyd dirnadaeth ynghylch y gwahaniaeth rhwng gwir a gau ym marn Wittgenstein, oherwydd bod yna amgylchfyd gennym o osodiadau cefndirol o’r fath: megis canfyddiad syml. ‘Dyma fraich.’ Medd Wittgenstein,⁵² ‘Cofier bod rhywun yn cael ei argyhoeddi o *gywirdeb* safbwynt gan ei

⁵¹ J. E. Caerwyn Williams, gyda Peredur J. Lynch, *Gwaith Meilyr Brydydd a’i Ddisgynyddion*, Cyfres Beirdd y Tywysogion I, (Caerdydd, 1994), 351.

⁵² *On Certainty*, 92.

symlder neu *symetri*, h.y. mae'r rhain yn ysgogi rhywun i fabwysiadu'r un safbwynt. Bydd rhywun wedyn yn dweud rhywbeth fel: "Dyna sut y mae'n rhaid ei bod hi."

Ac medd ef mewn man arall:⁵³ 'Dyw plant ddim yn dysgu bod llyfrau'n bodoli, bod cadair freichiau'n bodoli a.y.b. — maen nhw'n nôl llyfrau neu'n eistedd mewn cadair freichiau.' Hynny yw, maen nhw'n gyfarwydd â rhai gwirioneddau heb feddwl ond yn sythweliadol amdanynt, a'u derbyn yn sgil gweithredu a dysgu gwneud rhywbeth arall ynglŷn â nhw.

Enillir 'cyfundrefn' hefyd o gredu, nid drwy 'ddysgu', eithr drwy sylwadaeth a chyfarwyddyd cydlynol. Nid rhestr o accsiomau yw 'cyfundrefn' yn gymaint â'r cyfanwaith meddyliol y mae dadleuon unigol yn dod o hyd i fywyd drwyddynt⁵⁴. Dyna'r seiliau i ystyron iaith⁵⁵. Mewn cyd-destun gwahanol, meddai Barry J. Lewis, 'Ymateb naturiol y sawl sy'n wynebu môr o ansicrwydd yw ceisio bwrw angor mewn lle penodol. Mae angen cydio'r testun wrth rywbeth cadarn'.⁵⁶

Yn y fan hon, er mai Mynegiant yw'r enghreifftiau hyn a ddyry Wittgenstein, y mae hi bron fel pe bai'n dadlau ymhellach o blaid cyfundrefn o gyfundrefnau o fath Tafod semantaidd, heb fynd ati'n gyfundrefnus i'w disgrifio. Ymddengys i mi fod athronwyr a gais drafod cyfundrefneg 'ystyr', heb gydlynu hynny â ffonoleg na morffoleg, na chystrawen hanfodol a heb bennu'n union berthynas Tafod a Mynegiant, fel pe baent yn trafod iaith yn yr un ffordd â rhywun sydd yn trafod H₂O heb esbonio O.

Mae'r mater hwn o gyd-destun yn eithriadol o bwysig rhag i neb, yn hawdd ddigon, fynd i'r pwll o synied mai math o Ffenomenoleg oedd y canu gwirebol o ran ei hanfod. Un o nodweddion disgrifiad Ffenomenoleg oedd yr ymgais i gyflwyno sylwebaeth yn wrthrychol ar wahân i bob dehongliad ac i bob dimensiwn goddrychol, boed yn fetaffusegol neu'n rhagdybiol. Eto, safbwynt diwinyddol oedd hyn ei hun. Gwyddom fod hyn yn rhagdybiaeth o bosibilrwydd cyfeirbwyntiol sydd yn ddwfn ei gwreiddiau mewn amgylchfyd metaffusegol cyfoes. Rhagdybia ymwybod 'pur' a ddiffinnir ar wahân i'r Duw Cristnogol er enghraifft, heb yr un sylfaen iddo ond rhagdyb, sef yr Ego Trosgynnol.

⁵³ *On Certainty*, 476.

⁵⁴ *On Certainty*, 105.

⁵⁵ *On Certainty*, 411.

⁵⁶ Barry J. Lewis, *Genre a Dieithrwech yn y Cynfeirdd: Achos "Claf Abercuawg"*, *Llenyddiaeth mewn Theori*, II, (2007), 1-33.

Ac mae'n dra diddorol sylwi fel y mae'r canu hwn yn digwydd yn fynych groes i hynny o fewn cyd-destun bwriadus foeswersol neu grefyddol. Digwydd y canu o hyd hefyd o fewn cyd-destun teimladol croyw: symudir o 'bethau' i werthoedd dynol yn gyson. Ac y mae'r mynych 'gymryd yn ganiataol' o Wirionedd yn pwysleisio bod a wnelo'r farddoniaeth ag absoliwt.

Bid siŵr, ni fwriedir i'r canu fod yn uniongyrchol grefyddol. Ond dyna'r fframwaith anuniongyrchol fel pe bai'n gyd-ran o'r bywyd cyflawn a gyflwynir.

Wrth ddisgrifio llawer o'r canu gwirebol fel 'canu natur', tybed a ellid rhoi camagraff? Onid ymwneud â byd pob dydd cymdeithas wledig yr ŷm? Onid ymwneud â'r norm oedd bwriad y beirdd?

Soniai Barry J. Lewis am Kenneth Jackson yn anfodloni ar y term 'canu natur': 'Ceisiodd ddioli "canu natur" yn gategoriau llai simsan: "hermit poetry", "elegy", "gnomic poetry", "personal poetry".'⁵⁷

Iawn y'n rhybuddiwyd gan T. J. Morgan⁵⁸, 'Nid barddoniaeth natur yn yr ystyr ramantus ddiweddar yw, ond sylwadau gwirebol am natur neu amgylchfyd dyn wedi eu rhoi ar ffurf pennill.' Mae'r wfftio cywir ddigon yn rhan gyntaf y dadrithio hwn yn cael ei leddfu rywfaint gan ran olaf y gosodiad. Ceir rhyw faint o atyniad esthetig ym miwsig y prydyddu. A theg cymharu rhai o'r *Hen Benillion*:

*Anodd ennyn tân heb danwydd,
Anodd yfed chwerw ddiodydd,
Anodd nyddu â throell anhwylyd,
Anodd caru yn erbyn 'wyllys*⁵⁹.

Yn y gymhariaeth hon, yr hyn sy'n drawiadol yw'r ailadrodd yn y tair llinell gyntaf sy'n faterol galed, ac arwynebol arferol eu cynnwys, yn cael eu cyferbynnu â llinell fwy personol a hyd yn oed un feddylgar ysbrydol. Ond dyma ganu gwirebol wedi ystyfnig bara ymlaen ymhell i'r cyfnod diweddar.

Mae'r tair llinell gyntaf yn fynych yn amlwg wirebol mewn cryn nifer o'r penillion telyn hyn:

*Ni bydd tân heb wres lle byddo,
Ni bydd dŵr heb wlybrwydd ynddo,*

⁵⁷ 'Genre a Dieithrwch ...', 8.

⁵⁸ 'Adolygiad, Early Welsh Gnostic Poems,' 254.

⁵⁹ T. H. Parry-Williams, gol. *Hen Benillion*, (Llandysul, 1940), 23.

*Ni bydd 'fallen heb ddim 'falau,
Na bywiol ffydd heb dduwiol ffrwythau.⁶⁰*

Gellid cyfeirio at nifer o enghreifftiau cyffelyb: 29, 42, 49, 57, a.y.b. Mae'n bur amlwg fel arfer mai'r llinell olaf yw echel y pennill, ac nad oes i'r gweddill o'r penillion ddim ond swyddogaeth gyferbyniol, cyferbyniaeth yn y tebygrwydd datodol. Oherwydd y llinell honno, fe ganiateir y tair llinell ragarweiniol ac y rhoddir gwerth i'r pennill i gyd oherwydd y tro o'r naturiol i'r ysbrydol:

*Llawn yw'r môr o swnd a chregyn,
Llawn yw'r wy o wyn a melyn,
Llawn yw'r coed o ddail a blodau,
Llawn o gariad merch wyf innau.⁶¹*

Er derbyn nad canu rhamantaidd telynegol mo ganu natur y Cynfeirdd na'r Gogynfeirdd, na hyd yn oed y Penillion Telyn, ni chytunwn na allent ymateb i dlysnï nac i fawrhydi Natur. A'r ffordd wrthwyneb. Nid oedd y beirdd Rhamantaidd hwythau heb allu gwerthfawrogi y lle strwythurol syniadol a oedd gan ganu unionsyth am y cyffredin a'r amlwg. Cymerer y pennill enwog gan Robert Browning:

*The year's at the spring,
And day's at the morn;
Morning's at seven;
The hillside's dew-pearled;
The lark's on the wing;
The snail's on the thorn;
God's in his heaven —
All's right with the world!⁶²*

Beth bynnag am ddiffyg ysbrydoliaeth addurniad 'dew-pearled', mae llawer o'r llinellau hyn yn wirebau go unionsyth.

Credaf fod presenoldeb gwirebau yng ngwaith Morgan Llwyd yn awgrymus. Cyfeiria W. J. Gruffydd⁶³ at y diarhebion yn 'Llyfr y Tri Aderyn fel pethau cymharol amherthnasol'. Synia am *Gwaedd ynghymru* fel pe bai'n gallu cyfrif gwirebu yn griterion o ddiweddarwch: 'nid oes ynddo'r brawddegau gnomic byrion hynny, a'r pentyriad teitlau sy'n nodweddu ei weithiau diweddarach'. Ond o flaen y *Waedd* caed ei gyfrol

⁶⁰ *Hen Benillion*, 17.

⁶¹ *Hen Benillion*, 341.

⁶² Cân o 'Pippa Passes': Frederic W. Robinson, ed. *Poems selected from the Works of Robert Browning*, (London, 1926), 1.

⁶³ W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru, rhyddiaith o 1540 hyd 1660* (Wrecsam, 1926), 197.

gyntaf *Llythur i'r Cymru Cariadus*, ac egyr y gyfrol honno gyda'r cymalau cwta gwirebol enwog: 'Oferedd yw printio llawer o lyfrau; blinder yw cynnwys llawer o feddyliau; peryglus yw dwedyd llawer o eiriau; anghymarus yw croesawu llawer o ysbrydoedd, a ffolineb yw ceisio ateb holl resymau dynion.'

Pam yr atynnwyd Morgan Llwyd gan ddiarhebion a gwirebu o'r fath? Ai hynafiaetheg? Go brin. Calfinydd canol-y-ffordd oedd Morgan Llwyd. Gosodai Dr Goronwy Wyn Owen y Calfiniaid Clasurol a chymedrol, Oliver Thomas, Walter Cradoc a William Wroth ar aden dde'r Mudiad Piwritannaidd, William Erbery ar yr aden chwith. Ond rhwng y ddau begwn yna caed y Calfiniaid cadarn Vavasor Powell a Morgan Llwyd yn y canol (yn fwy radicalaidd na'r Calfiniaid eraill oherwydd eu diddordebau gwleidyddol ym Mhlaid y Bumed Frenhiniaeth, ond yn ddwfn eu Calfiniaeth sylfaenol ynghylch Penarglwyddiaeth Duw). Gellid disgwyl y buasai Piwritan yn cyfrif diarhebu a gwirebu yn nosbarth 'coelion gwlad', heb awdurdod ysgrythur. Ond yr oedd gan Forgan Llwyd athrawiaeth ganolog a phwysig ynghylch y Gydwybod, y Goleuni Mewnol, Sensus Divinitatis (y synnwyr o Dduw) — yr hyn a alwai Calfiniaid yn Ras Cyffredin a'r ieithydd mawr Gustave Guillaume yn Feddwl Cyffredin. Er gwaetha'r Cwmp credai Morgan Llwyd fod enaid dyn yn coleddu peth gwybodaeth etifeddol o fodolaeth Duw a Chydwybod ynghylch y gwahaniaeth moesol hanfodol o dda a drwg. Nid oes yr un diwinydd Cymraeg wedi apelio cymaint ag ef at y Meddwl Cyffredin hwn fel modd i ymateb i alwad yr Ysbryd Glân. Ac ymddengys i mi y gallai ystyried diarhebion a gwirebu o fewn y dreftadaeth ddofn honno. Nid anffaeledig oedd fel y Beibl, ond yr oedd mewn dosbarth deallol arbennig.

Bid a fo am hynny, er nad yw Morgan Llwyd yn unman yn ceisio cyflwyno dadl ddiwinyddol gyffelyb i'r uchod, diau fod y meddylfryd hwnnw yn gyd-destun isymwybodol neu sylfaenol i'w agwedd at wirebu. Iddo ef, roedd bodolaeth yr angen am Wirionedd, sy'n hiraeth y tu mewn i bob bywyd, yn rhyfeddod i'w pharchu. Mae gan yr Athro M. Wynn Thomas ymadrodd trawiadol amdano⁶⁴, 'literally inspired to reveal through his writing the hidden spiritual syntax of the Welsh language.' A rhydd ef ddisgrifiad amlochrog argyhoeddiadol iawn o'r fath ffenomen ryfedd. Carwn feddwl mai

⁶⁴ M. Wynn Thomas, 'Seventeenth Century Puritan Writer: Morgan Llwyd and Charles Edwards', yn R. Geraint Gruffydd, ed. *A Guide to Welsh Literature c.1530-1700* (Cardiff, 1997), 200.

yn y cyd-destun hwnnw y canfyddir atyniad y dull gwirebol. Yr oedd y gwirionedd anweledig yn realiti fewnol iddo.

Pa fath o amgylchiadau felly a oedd yn noddï neu'n cymell yr englynion gwirebol yn y cyfnod cynnar? 'Dyma broses o sylwi ar ryw lun o drefn mewn bywyd,' meddai Gwyn Thomas⁶⁵. Mae'n wir fod y penillion yn seiliedig ar y drefn a ganfyddir. Ond mae'n bur debyg fod y cyfeillion hyn yn medru cadw trefn heb gymorth y rhain. Tybiai Syr Ifor Williams fod yna fath o hynafiaetheg yma debyg i eiddo'r llawysgrifwyr yr oedd ef ei hun yn dibynnu arnynt mor aml, 'Er mwyn helpu'r cof i gadw diarhebion y dyddiau gynt, neu fel moddion i gyflwyno rhai newydd i sylw, hoffai ein beirdd yn y Canol Oesoedd eu rhoi mewn englynion o'r hen ganiad, weithiau gyda dwy linell o ganu natur o flaen y ddihareb, weithiau gydag un llinell o ganu natur, a dwy ddihareb yn dilyn, weithiau yr englyn yn ddiarhebol i gyd.'⁶⁶ Dadleuai K. Jackson ar y llaw arall: 'it need not be, and usually is not, a current popular saying with an implied moral, as the proverb is, and it need contain no advice or exhortation like the precept.'⁶⁷ A rhydd ef enghraifft, 'Bit las lluarth.' (Bydd yr ardd lysiau'n las).⁶⁸

Yn hytrach na cheisio dyfalu pwrpas aruchel i'r canu hwn, beth oedd ym mryd dwys y beirdd? Os perthynai'r arddull gwirebol i linyn y Traddodiad Gwerinol, tybed a ellid mentro ystyried math o ganu ffwrdd-â-hi gyda'r delyn, yn gymharol ddiystyr ailadroddol weithiau fel canu pop yr hanner can mlynedd diwethaf? Wrth wneud hynny, efallai mai academyddion yw'r rhai olaf i geisio dychmygu cyd-destun meddyliol gan y gynulleidfa. Tybed a allwn rithio achlysur ger bron fel a ganlyn: yr ydym mewn cwmni gwrywaidd — parti o hanner dwsin o wŷr rhyfel neu o helwyr — yn llochesu mewn ogof neu mewn celli o goed bythwyrdd — yn y gaeaf, gan mai dyna'r tymor gorau ar gyfer rhyfela — gydag un ohonynt yn dipyn bach o delynor tair rhes — mae'n llafarganu gan daro'r nodau — lluchia'r ddwy linell gyntaf i ffwrdd bron yn ddifeddwl tan gadw'i olwg ar air olaf yr englyn (a'r odl) — tyn ef o fwynglawdd ei gof ar ddywediad cyffredin yn llên ddoethineb ei lwyth neu ar ystrydeb — dyna'r diwedd i'r pennill ar y gorwel — ac i ffwrdd ag ef yn syml fel cantor pop — tŷn seml, geiriau syml heb hidio llawer am ystyr

⁶⁵ Gwyn Thomas, *Yr Aelwyd Hon*, (Llandybie, 1970), 116.

⁶⁶ B III, 1936, 4.

⁶⁷ *Early Welsh Gnostic Poems*, 1.

⁶⁸ *Early Welsh Gnostic Poems*, VII, 16.1.

ond ar dro — ‘geiriau llanw’ yn aml fel yr amheuai Ifor Williams? Gwirebau nad ydynt yn herio’r deall.

Sylwer ar ‘gerdd’ o’r fath yng nghanasgliad Jackson, ‘Llym awel ...’⁶⁹ Englynion ‘milwr’ yw’r rhain at ei gilydd. Awgryma teitl ‘bardd teulu’ nid yn unig rheng is na’r pencerdd, ond y gallai berthyn i gwmni o gyd-filwyr. Ceir dau rediad penodol yn y gerdd hon, y cyntaf o chwe englyn yn dechrau bob un â’r ymadrodd ‘Ottid eiry’ (5-10) (Mae’n bwrw eira); ac y mae pob englyn yn y gyfres yn sôn am filwriaeth. Dychwelir yn y pennill cyswllt rhwng y ddau rediad at gefndir yr oerfel sy’n thema i’r darn rhagarweiniol a ragflaenai Gyfres I. Wedyn ceir Cyfres II (12-15) lle y mae pob pennill yn dechrau â’r gair ‘gwenyn’. Ie, ond onid yw’n amserol? —

Guenin ig clidur rac gulybur gaeaw.

Ar yr wyneb, penillion am fyd natur. Ond tybed onid dyma res sy’n gyffelybiaeth i gyd, ar gyfer milwyr yn llochesu wedi brwydro, a’r bardd wedi’i anafu? (2. breit allan orseuir; 5. nid a kedwir oe [sef: i’w] neges; 6. segur yscuid ar iscuit hen: sef: segur yw’r darian; 8. mi nid aw [af], anaw [anaf] nim gad).

Yna, ym mhennill 19 ceir rhywbeth go anghyffredin. Gall mai pennill crwydr cwbl ddiniwed yw o saga Llywarch, a dyna’r cwbl. Ynteu, ai dyfyniad yw? Ai cyfeiriad coegus yw? Ai cyhuddiad?

*Nid vid iscolheic, nid vid e leic unben,
nyth eluir in dit reid;
och, Gindilic, na buost gureic.*

Dyma’r pennill enwog o Saga Llywarch, lle y mae’r hen frenin yn cyhuddo’i fab Cynddilig o llwfrdra am beidio â mynd allan i frwydro. Mae’r awgrym mor annhebygol fel y mae’n bwysig rhoi sylw i ychydig o benillion ynghynt, lle y mae’r llinell hon yn digwydd ym mhennill 15:

dricweuet llyvrder ar gur

(eiddo drwg yw llwfrdra ar wŷr)

Cerdd yw hon am filwyr yn llochesu yn y gaeaf, ac yn teimlo’n euog. Mae’r cwbl yn gyfrwys awgrymus.

⁶⁹ *Early Welsh Gnostic Poems*, 1.

Ambell dro yn y cerddi hyn, ceir llinell mor dlws ac mor ddeallus fel y byddai yn taro'n fyw ynghanol llinellau eraill sy'n gymharol farw'n esthetig, megis y pennill cyfan enwog:

*Y deilen [honn] a dreuyt gwynt,
gwaie hi oe thynget;
hen hi, eleni y ganet.*

Dyma gynnrych myfyrdod a gweledigaeth loyw gan fardd deallus a chraff.

Ymddengys y math hwn o ganu efallai yn gyson arswydus o naif i'r sylwebydd arwynebol. Ond ym mha ffordd y mae'n fwy naif na dyweder Eifion Wyn?

*Wyt Ionawr yn oer
a'th farrug yn wyn;
a pha beth a wnaethpwyd
i ddŵr y llyn?⁷⁰*

Gyda barddoniaeth boblogaidd, os yw'r llinellau'n odli, ni raid cael mwy o gywreindeb canadwy nac o sylwedd deniadol na hynny. Yn wir, ymddengys rhai o'r diarhebion neu'r dywediadau y cydiai'r gwirebwyr ynddynt yn fwy meddylgar na dim a geid gan Eifion Wyn. Sylwer ar yr esboniadau hyn gan T. J. Morgan⁷¹ i rai llinellau 'gwirebol': ni cheidw y wyneb ar ny rodwy (fe fydd y sawl na roddo'n hael yn colli ei enw da); bit vleid ar adwy (lle ceir bwlch yn y clawdd ... y saif y blaidd gan mai drwy'r bwlch y mae'r defaid yn debyg o ddod); bit haha byddar (heb glywed y tro cyntaf ac yn hollol reddfol yn gwneud y sŵn gofynnol a gyfleir gan yr 'aha'); bit laven meichyeit wrth ucheneit gwynt (am fod y gwynt yn siglo'r mes oddi ar y coed).

Pan fyddom yn ymwneud â llenyddiaeth ysgafn a phoblogaidd, y mae a wnelo â Meddwl Cyffredin. Cydymffurfio isymwybodol yw. Cytuna â 'phawb'. Mewn Seicoleg yn yr ugeinfed ganrif, aethpwyd fwyfwy i drafod 'isymwybod' o fewn cyd-destun afiechyd. Ac ni fanylir ar y norm, na'r ffaith fod llawer yn cael ei gadw yn yr isymwybod cyffredin sy'n angenrheidiol ar gyfer trefn bywyd pob dydd.

Yn achos y gosodiadau atomaidd a'r gwirebau, adlewyrchir trefn reolaidd mewn natur ac mewn ymddygiad, a hynny o'r tu allan i'r meddwl. Anodd onid amhosibl i neb, pwy bynnag yw, beidio â choleddu rhai rhagdybiau cyffredin. Soniai Wittgenstein am yr echel-osodiadau, y rhai a ragdybiai bob barn. Mae'r rhagdybiau hyn yn fath o gyflwr

⁷⁰ Eifion Wyn, *Telynegion Maes a Môr* (Wrecsam, 1906), 59.

⁷¹ 'Adolygiad, Early Welsh Gnostic Poems.'

fframweithiol, sy'n darparu sylfeini meddwl rhesymol.⁷² Sicrhânt ni fod yna'r fath beth â gwirionedd. Ni ddysgwyd i mi erioed nad yw fy nwylo'n diflannu pan nad wyf yn rhoi sylw iddynt;⁷³ 'Pa fath o beth fyddai amau yn awr fod gennyf ddwy law? Pam na allaf ei ddychmygu o gwbl? Beth a gredwn pe na chredwn hynny? Hyd yn hyn nid oes gennyf gyfundrefn o gwbl y gallai'r amheuaeth hon fodoli o'i mewn.'⁷⁴

Ond ni lwyddodd Wittgenstein erioed i wahaniaethu fel hyn rhwng y mathau o reolau a ddyfeisir yn ymwybodol a'r mathau o ddeddfau isymwybodol sy'n amodi bodolaeth y gêm o gwbl. Eto, yr oedd ei fyfyrddod am osodiadau atomaidd wedi'i arwain i sylweddoli bod yna fath o fframwaith a oedd yn ddyfnach na'r frawddeg a gynhyrchir. Adlewyrcha'r gosodiadau atomaidd un o'r ffactorau fframweithiol a oedd, er y gwahaniaethau amlwg, yn ymwarded ag arbenigolrwydd yr unigolion, er mwyn darparu math o norm rhyng-bersonol.

Eto, ni ellid caniatáu lle i Wittgenstein yn ein trafodaeth heb rybudd. Nid mater o ymgyfyngu yn unig fu ei duedd. Mynnai hawlio: 'Nid oes dim sy'n gudd o unrhyw ddiddordeb i ni.' Ac eto: 'Dim ond yn ffrwd y meddwl a bywyd y mae gan eiriau ystyr.' Byddai'r fath ymagwedd wedi cadw Galileo'n dawel er mawr heddwch i'r awdurdodau, a Newton hefyd, a holl ramadegwyr yr oesoedd. Aeth Wittgenstein ati i lunio athroniaeth iaith, mae'n wir. Ond ymhlith rhagdybiau, penderfynodd nad oedd am wynebu gramadeg go iawn yn ddadansoddol, neu o leiaf yn gyfundrefnol. Mynnodd 'Wahaniaethau'; ond er iddo helaeth gydnabod y dymuniad am undod ni chanfu'r berthynas yr un pryd a gaed yn y 'cyfundrefnau' [gwahanu + uno] sy'n sylfaen i Fater ac i Iaith. Sylwodd ar gyd-daro'r positif a'r negatiff. Ond caeodd y drws i iaith lawn cyn ceisio mynd i mewn. Meddai Wittgenstein: 'Nid theori yw athroniaeth ond gweithgaredd.'⁷⁵ Ar sail y rhagdyb theoretig hwn y mae'n dewis yr hyn a eilw ieithydd yn Fynegiant yn hytrach na Thafod. Er anhoffi hynny neu beidio, cyffredinoli yw theori, ac ni phaid Wittgenstein â chyffredinoli, megis pan ddywed mai 'defnydd yw iaith'. Ac eto, mae'i fyfyrddod ynghylch natur y gwirionedd diamheuol, oherwydd bod ansawdd ei feddwl mor gyfoethog hyd yn oed ar ôl camragdyb, yn gryn help wrth ystyried pa fath o feddwl a oedd y tu ôl i wirebau. Mae cyfraniad Wittgenstein i'n syniadaeth ni ynghylch 'gosodiadau gwir' yn dreiddgar o

⁷² *On Certainty*, 162-7, 401-2.

⁷³ *On Certainty*, 153.

⁷⁴ *On Certainty*, 247. Gallasai fod wedi mentro ar 'Y Rhannau Ymadrodd Traethiadol'.

⁷⁵ *Tractatus*, 4.112.

ddwys. Medd ef: ‘Mae ein hamheuson yn dibynnu ar y ffaith fod rhai gosodiadau yn rhydd rhag amheuaeth, ac fel petaent yn echelau y gellir troi arnynt.’⁷⁶ Felly yr ymhyfrydai’r gwirebwyr mewn gosodiadau fframweithiol cyffredinol a weithiai ym myd ystyr yn debyg i gyfundrefnau ym myd ffurf. Yr oeddent yn synied eu bod yn dileu’r goddrychol ac yn cyflwyno’r byd yn union. Bodolaeth gyffredinol oedd yr hyn a oedd yno, hyd yn oed heb i neb ei sylweddoli: ‘dathlu’i’ sylweddoliad noeth oedd gwirebu. Ond i Guillaume, yr oedd iaith ynddi’i hun yn theori ac yn weithgaredd sythweliadol. Ac mewn gramadeg ei hun y ceid ar ryw olwg y ffenomen debycaf i symlder gwirebau am mai yn y fan yna y ceid y ffurf elfennaidd a gyfatebai i’w cynnwys elfennaidd hwy. Yr oedd gan ramadeg ei hun wirionedd.

[Diolchaf i’m cydweithiwr Walford Gealy am sawl dadl fuddiol ar Wittgenstein, heb ei fod ar fai am yr un o’r casgliadau.]

⁷⁶ *On Certainty*, 341.